

## **Cofnodion cyfarfod y Gweinidog â Chomisiynydd y Gymraeg** **25/10/2017**

### Presennol

Alun Davies AC – Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

*[Enw Swyddog]* - isadran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru

*[Enw Swyddog]* - isadran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru

*[Enw Swyddog]* - isadran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru

Meri Huws – Comisiynydd y Gymraeg

*[Enw Swyddog]* – Cyfarwyddwr Strategol, Comisiynydd y Gymraeg

### **1. Diweddariad ar Bapur Gwyn Bil y Gymraeg**

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar y Papur Gwyn ar 9 Awst. Dyddiad cau i dderbyn ymatebion yw 31 Hydref. Nododd y Gweinidog bod y Llywodraeth wedi derbyn oddeutu 80 ymateb, gyda'r mwyafrif ohonynt gan unigolion.

Nododd y Gweinidog bod digwyddiadau ymgysylltu wedi cael eu cynnal ar draws Cymru a'i fod yn falch bod swyddogion y Comisiynydd wedi mynychu'r rheiny. Dywedodd y Comisiynydd bod hi'n dal i ystyried cynnwys y Papur Gwyn ac y byddai'n falch pe bai'r deialog gyda'r Llywodraeth yn parhau.

Dywedodd y Gweinidog bod y gwaith ar ystyried cynnwys RIA posib i'r Bil yn parhau a bod y Llywodraeth yn sgopio pa wybodaeth bydd hi'n bosib bydd angen arnynt. Dywedodd y Comisiynydd y byddai'n barod i gydweithio a darparu unrhyw wybodaeth fyddai o ddefnydd.

### **2. Diweddariad ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg**

Mae'r Rheoliadau drafft ar gyfer y sector iechyd wedi'u diwygio yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad yn haf 2016. Nododd y Gweinidog mai ei fwriad yw gosod y Rheoliadau cyn y Nadolig.

Gofynnodd y Comisiynydd os fyddai'n Pwyllgor yn galw'r safonau i'w sylw nhw cyn bod y Rheoliadau yn mynd i'r Cynulliad llawn. Dywedodd y Gweinidog bod hynny'n debygol.

Dywedodd y Gweinidog bydd rhaid ystyried yr ymatebion i'r Papur Gwyn cyn gwneud mwy o Reoliadau.

### **3. Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19**

Nododd y Gweinidog ei ddiolch i'r Comisiynydd am anfon yr amcangyfrif i mewn. Dywedodd byddai swyddogion yn mynd ati i drafod yr amcangyfrif gyda swyddogion cyllid a byddai'r drafodaeth yn parhau tan fod y gyllideb yn cael ei bennu.

#### **4. Comisiynydd y Gymraeg i gyflwyno a thrafod ei hadroddiad sicrwydd Hawliau'n Gwreiddio.**

Rhoddodd y Comisiynydd grynodedb o'r Adroddiad Sicrwydd a gyhoeddwyd ar 12 Hydref. Diolchodd y Gweinidog i'r Comisiynydd am yr holl waith a aeth mewn i'r adroddiad. Nododd tra bod y wybodaeth sydd ynddo yn ddefnyddiol, mai ei bryder e oedd bod diffyg gwybodaeth yn gyffredinol am faint sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg

#### **5. Cwynion am fanciau**

Nododd y Gweinidog bod cynnydd wedi bod yn ddiweddar yn y nifer o gwynion mae'r Llywodraeth yn derbyn am ddiffyg gwasanaethau Cymraeg gan fanciau. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn ymwybodol mai cyfrifoldeb y Comisiynydd oedd gweithio gyda banciau i wella gwasanaethau Cymraeg, ac ymchwilio i broblemau felly ei fod yn annog achwynwyr i gysylltu gyda'r Comisiynydd. Gofynnodd y Gweinidog i'r Comisiynydd am ddiweddariad am ei gwaith gyda'r sector banciau. Dywedodd y Comisiynydd bod ei swyddogion yn parhau i weithio gyda'r banciau, a'i bod yn bwriadu trefnu digwyddiad. Bydd swyddogion sector preifat yn cysylltu gyda swyddogion y Llywodraeth gyda diweddariad manwl.